Sut gallwn ni helpu?

Y Disgybl: Cerdyn 4

Dyma'r 10 DULL GORAU i helpu'r amgylchedd. Sut mae pob un un helpu? A allwch chi feddwl am fwy o ffyrdd?

1. Cadw popeth sy'n bosibl i'w ailgylchu, a'i gludo i fanciau ailgylchu.
2. Edrych ar ôl eich eiddo, fel eu bod yn para'n hwy.
3. Diffodd goleuadau a phethau trydanol os nad ydynt yn cael eu defnyddio.
4. Defnyddio cludiant cyhoeddus, seiclo neu gerdded yn lle mynd yn y car.
5. Rhoi sbwriel yn y bin bob tro.
6. Ail ddefnyddio bagiau papur o'r archfarchnad.
7. Gofalu'ch bod yn cau ffenestri.
8. Defnyddio bylbiau golau watedd isel.
9. Annog teulu a ffrindiau i leihau, ail ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.
10. Defnyddio dwy ochr papur ysgrifennu.



Pethau i'w gwneud

1. Ar y daith nesaf i'r archfarchnad, chwilio am becynnau y gellir eu hailgylchu. Pa bacedi sydd â symbol sy'n dynodi ei bod yn bosibl eu hailgylchu? Pa gyfleusterau sydd gan yr archfarchnad ar gyfer ailgylchu caniau, poteli a phapur?

2. Ysgrifennu at y cyngor neu'r papur lleol, neu at yr AS os nad oes yna ganolfan ailgylchu neu fanc caniau gerllaw gan ofyn am un a rhoi digon o resymau da dros ei gael.

Sut gallwn ni helpu?

Yr Athro: Cerdyn 4

Dyma 5 ffordd hawdd y gall disgyblion eu defnyddio i helpu'r amgylchedd.

1. Meddwl am adnoddau'r amgylchedd. Os defnyddiwn lai ohonynt, byddant yn parhau am fwy o amser. Er enghraifft, diffodd goleuadau a phethau trydanol os nad ydynt yn cael eu defnyddio.

2. Prynu, defnyddio a storio pethau'n ofalus. Er enghraifft prynu ond yr hyn sydd ei angen, edrych ar eu hôl fel eu bod yn para am fwy o amser. Ceisio dewis pethau sy'n garedig i'r amgylchedd ac yn cynnwys deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu. Chwilio am y logo ailgylchu er mwyn darganfod pa rai sy'n bosibl eu hailgylchu'n hawdd.

3. Gwneud 'gwylio gwastraff' yn ffordd o fyw. Dylid rhoi sbwriel mewn bin bob tro – ond dim ond ar ôl ailddefnyddio ac ailgylchu gymaint ohono ag y bo modd.

4. Cadw unrhyw beth sy'n bosibl ei ailgylchu, fel papur, hen ddillad, poteli a chaniau, a mynd â nhw i fanc ailgylchu.

5. Ailgylchu pob can. Gellir ailgylchu pecynnau dur y cartref fel caniau chwistrellu, paent a thuniau polish ynghyd â chaniau bwydydd anifeiliaid anwes, caniau diodydd a chaniau bwyd.

Gweithgareddau

1. Trefnu biniau ailgylchu ar gyfer yr ysgol, wedi'u labeli ar gyfer papur, poteli a chaniau. Gall disgyblion gynllunio posteri ailgylchu, a chael eu hannog i drafod materion ailgylchu gyda'u teuluoedd.

2. Gallai disgyblion ysgrifennu taflen ar gyfer eu rhieni i ddweud wrthynt am y cyfleusterau yn yr ysgol a'u hannog i ddod â gwastraff i mewn o artref.

3. Gall disgyblion ysgrifennu barddoniaeth neu ganeuon a dramâu byrion am bwysigrwydd ailgylchu, a'u perfformio i weddill yr ysgol.

4. Dechrau cynllun gwylio sbwriel. Gall disgyblion greu rhestr a chael pob dosbarth i gymryd diwrnod ar y tro yn cadw llygaid am sbwriel. Gellir cadw cofnod ar gyfrifiadur o'r eitemau sydd yn y sbwriel. Gallent ysgrifennu at gwmnïau lleol hefyd i'w gwahodd i helpu drwy roi neu noddi bin newydd yn yr ysgol.

5. Gallai disgyblion feddwl am ffyrdd i atgoffa eraill i gau tapiau, defnyddio golau ond pan fo'i angen, diffodd y teledu/cyfrifiadur ar ôl gorffen eu defnyddio. Er enghraifft, gallent ysgogi pobl i gymryd gofal o'r amgylchedd drwy ysgrifennu a dysgu rhigymau, dylunio a gwneud hysbysiadau.

6. Darganfod mwy am gynlluniau ailgylchu dur yn yr ardal. Yna gwahodd siaradwr Swyddog Ailgylchu'r awdurdod lleol efallai, i siarad â'r dosbarth neu'r ysgol am bwysigrwydd ailgylchu.

Prosiect

Cynnal trafodaeth yn y dosbarth yngl?n â ddylid ailgylchu pethau am arian neu er lles yr amgylchedd.

Gellir ystyried:

Ydy'r amgylchedd yn bwysicach nag arian?

Sut gall ailgylchu wneud arian?

Os nad yw ailgylchu yn gwneud arian, a fydd pobl yn barod i'w wneud?

A ddylai deddfau orfodi pobl i ailgylchu hyd yn oed os nad yw'n creu arian?

Cyfeiriadau Defnyddiol:

Steel Can Recycling Information Bureau (SCRIB)
Trostre work, Llanelli, Carmarthenshire, SA14 9SD
Ffôn: 01554 712 632
E-bost: info@scrib.org, Gwe: www.scrib.org

Brit Glass
British Glass, 9 Churchill Way, Chapeltown, Sheffield S35 2PY
Ffôn: +44 (0) 114 290 1850, Ffacs: +44 (0) 114 290 1851
Gwe: www.britglass.co.uk

SCRiB
steel can recycling information bureau